Wilson Carlile 1847–1942

Offeiriad, efengylydd a sefydlydd y Church Army

Bu'r eglwys Anglicanaidd yn Lloegr yn araf iawn wrth ymateb i'r Chwyldro Diwydiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd y mwyafrif o'r dosbarth gweithiol yn gwbl anwybodus am wirioneddau sylfaenol Cristnogaeth. Ni lwyddwyd i ddechrau datrys eu diffygion ym maes efengylu ac ymestyn allan nes daeth Wilson Carlile a'r Church Army ym 1882. Ei weledigaeth oedd sefydlu cenhadaeth Gristnogol i weithwyr gan weithwyr trwy ddefnyddio lleygwyr i gyrraedd y rhai oedd yn fethiant, yn ddrwgweithredwyr ac yn ddi-waith. Dechreuodd Carlile ei waith yng Ngorllewin Llundain ac am drigain mlynedd bu'n cyfarwyddo'r gwaith. Hanai o linach hir o Bresbyteriaid Albanaidd a ymfudodd i Lundain. Ganwyd ef yn Brixton ar 14 Ionawr 1847, yr hynaf o ddeuddeg o blant i Maria ac Edward Carlile, masnachwr yn y Ddinas yn Llundain. Roedd yn blentyn bregus oherwydd nam ar yr asgwrn cefn. Aeth i ysgol breifat Brixton a phan oedd yn dair ar ddeg ymunodd ym musnes teilwra a sidan ei daid. Yn fuan wedyn aeth i'r City of London School ac yna am flwyddyn i ysgol yn Lille lle dysgodd siarad Ffrangeg yn rhugl. Yn ddiweddarach dysgodd siarad Almaeneg ac Eidaleg. Dychwelodd i weithio gyda chwmni ei daid yn Cheapside a gosododd nod iddo'i hun y byddai'n hel celc o £20,000 erbyn y byddai'n bump ar hugain. Llwyddodd i wneud hynny oherwydd ei ddoniau trefnu a'i fanylrwydd gyda'r gwaith. Ond ym 1873 bu argyfwng yn y byd bancio yn Llundain ac Efrog Newydd a chollodd ei ffortiwn fel nad oedd ganddo ond £1,500. Dioddefodd salwch drwg lle y bu yn orweddiog am hir ac yn y cyfnod hwn y siaradodd Duw gydag ef. Cafodd lyfr yn rhodd gan fodryb yn dwyn y teitl *Grace and Truth* a chyn iddo orffen darllen y bennod gyntaf yr oedd wedi cyflwyno ei fywyd i'r Arglwydd.

Pan ddychwelodd i'r busnes nid oedd ei galon yn y gwaith ac nid oedd ganddo ddiddordeb mewn gwneud arian. Treuliai ei amser sbâr yn efengylu yn Blackfriars. I gychwyn roedd yn aelod gyda'r Brodyr Plymouth ac yna gyda'r Anglicaniaid yn Eglwys Holy Trinity, Richmond. Priododd Flora Vickers ym 1870 ac ymaelododd y ddau yn eglwys Anglicanaidd Clapham. Pan ddaeth yr efengylwyr Americanaidd Ira D

Sankey a Dwight L Moody ar ymweliad â Llundain ym 1875 fe gynorthwyodd Carlile hwy ar yr ochr gerddorol. Gadawodd dulliau efengylu'r Americanwyr argraff ddofn arno, yn enwedig y defnydd a wnaed o ddynion cyffredin yn rhannu profiad o'u tröedigaethau ac o waith Duw yn eu bywydau.

Ym 1878 teimlodd alwad gan Dduw i'r weinidogaeth. Treuliodd ddwy flynedd yn astudio yng Ngholeg St John yn Highbury ac yna fe'i hordeiniwyd fel ciwrad yn St Mary Abbots yn Kensington. Ei nod o ddechrau ei weinidogaeth oedd cyrraedd pobl dlawd gyda'r Efengyl. Casglodd at ei gilydd griw o weithwyr cyffredin oedd yn gallu rhannu eu ffydd yn rhwydd. Cynhaliwyd cyfarfodydd awyr agored, gorymdeithiau ac oedfaon Magic Lantern yn neuadd yr ysgol. Ymosodwyd arnynt yn aml yn ystod y cyfarfodydd hyn ond daeth llawer o bobl gyffredin i gredu yn Iesu Grist. Roedd yr arbrawf o ddefnyddio pobl gyffredin i efengylu wedi gweithio yn ardderchog. Yn yr un cyfnod roedd eraill o fewn yr Eglwys Anglicanaidd yn ceisio datblygu strategaethau efengylu yn enwedig y Parch. Evan Hopkins a oedd wedi dechrau'r Church Gospel Army yn Richmond a hefyd y Canon Atherton ac F. S. Webster. Cyfarfu Carlile â'r tri ym 1882 a phenderfynasant uno mewn gwaith o dan yr enw The Church Army. Ymddiswyddodd Carlile o'i gyfrifoldebau yn Eglwys St Mary Abbots er mwyn bod yn gyfarwyddwr y mudiad newydd. Rhoddwyd hysbyseb mewn papurau eglwysig yn galw am 'ddynion ifanc llawn tân a brwdfrydedd sy'n barod i roi heibio'r cwbl er mwyn Iesu Grist i ymladd yn erbyn pechod ac annuwioldeb'. Cafwyd ymateb gan ddynion o bob math – gofaint, clercod a gweithwyr ffatri. Anfonwyd hwy am hyfforddiant i Rydychen. Pan gwblhawyd yr hyfforddiant fe'u gwnaethpwyd yn Gapteiniaid oedd â chyfrifoldeb dros gorfflu. Sefydlwyd gorsaf gyntaf y Church Army yn Richmond. Eu gwaith oedd efengylu a thystio yn yr awyr agored. Yn hytrach na gwahodd pobl i ddod i'r eglwys, bwriad yr Army oedd bod yn eglwys oedd yn mynd at y bobl. Wedi tair blynedd o waith roedd gan y Church Army 65 o swyddogion a rhwng pedair a phum mil o 'filwyr'. O fewn blwyddyn cafwyd dwy fil o bobl yn credu o'r newydd yn Iesu. Yn ddiweddarach datblygodd y gwaith trwy ddarparu lloches i'r digartref a'u bwydo ar y Thames Embankment. Ambell i noson yn y gaeaf byddai cymaint â 2,000 yn ymgynnull yno i gael bwyd. Bu Carlile farw yn ei gartref yn Kingsbury, Woking, ar 26 Medi 1942.